## Adran 1 – Manylion Sylfaenol

**Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch biolegol i'w gael ar dudalennau bioddiogelwch y Brifysgol. Mae help ar gwblhau'r asesiad risg hwn i'w gael yn y canllawiau diogelwch biolegol.**
**Mae rhagor o wybodaeth am gymorth Iechyd Galwedigaethol ar gael ar wefan y Brifysgol.**

| | |
|---|---|
| **Teitl** | |
| **Rhif cyfeirnod yr Asesiad Risg**<br>(efallai na fydd un gennych ar gyfer cyflwyniad 1af) | |
| **Rhif cyfeirnod yr HSE (os yw'n gymwys)** | |
| **Y prif ymchwilydd (PI)** (os yw'n gymwys) | |

**Fel y rheolwr sy'n gyfrifol am y gwaith hwn, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan bawb sy'n rhan o'r prosiect neu'n gweithio arno lefel briodol o hyfforddiant ac arbenigedd i weithio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr yn darllen ac yn deall yr asesiad risg hwn a bod yr holl fesurau rheoli yn cyd-fynd â'r rhai a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect.**

| | |
|---|---|
| **Awdur yr asesiad risg, os nad y PI** | |
| **Cyfadran/Adran** | |
| **Dyddiad yr asesiad**<br>(dylai fod cyn dechrau'r gwaith) | |
| **Lleoliad y gwaith** (Adeiladau a rhifau ystafelloedd neu waith maes) | |

## Adran 9 – Adolygiad (gweler y tudalen olaf)

### Cofnod o'r adolygiad

Nodwch pa newidiadau neu ddiweddariadau sy'n cael eu gwneud i'r asesiad risg (os oes rhai), a pham y cynhaliwyd yr adolygiad (dyddiad adolygu'r asesiad risg wedi dod i ben, newid yn y broses waith, damwain etc).
Dylid cyflwyno'r asesiad risg sydd wedi'i adolygu i'r Pwyllgor Diogelwch Biolegol a GM trwy biological-gm-committee@aber.ac.uk.

| Rhif yr Adolygiad | Dyddiad yr Adolygiad | Paratowyd gan | Cymeradwywyd gan | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Adran 2 – Y prosiect

Dylai'r adran hon ddisgrifio'r prosiect a dylai fod yn rhesymol fanwl ond nid yn gynhwysfawr.  Dim mwy na 500 o eiriau.

**2.1: Disgrifiad byr o'r prosiect a'r gweithgareddau**

## Adran 3 – Asesiad Risg

Dylai'r adran hon ddisgrifio unrhyw risgiau posibl i bobl a'r amgylchedd. Dylai gynnwys cyfiawnhad clir ac eglur o unrhyw osodiadau a wneir am y risgiau gydag esboniad rhesymegol ac unrhyw dystiolaeth neu gyfeiriadau perthnasol.

**3.1: Cyfryngau neu ddeunyddiau biolegol**

Rhestrwch ddeunydd(iau) mewn unrhyw un neu ragor o'r grwpiau a ganlyn.  Os nad oes deunydd yn cael ei ddefnyddio o grŵp penodol, marciwch hynny â D/G neu'r tebyg.

| | |
|---|---|
| Cyfryngau biolegol (Grŵp 1) | |
| Cyfryngau biolegol (Grŵp 2) | |
| Cyfryngau biolegol (Grŵp 3) | |
| Pathogenau anifeiliaid penodedig (Grŵp 2) | |
| Pathogenau anifeiliaid penodedig (Grŵp 3) | |
| Pathogenau planhigion neu blâu | |
| Tocsinau | |
| Carsinogenau | |
| Alergenau | |
| Meinweoedd, celloedd neu ddeunyddiau dynol | |
| Meithriniadau celloedd dynol | |
| Meinweoedd, celloedd neu ddeunyddiau anifeiliaid | |
| Meithriniadau celloedd anifeiliaid | |
| Meinweoedd, celloedd neu ddeunyddiau planhigion | |
| Meithriniadau celloedd planhigion | |
| Pobl | |
| Anifeiliaid | |
| Planhigion | |
| Priddoedd | |
| Samplau neu ddeunyddiau amgylcheddol | |
| Gwastraff | |
| Deunyddiau biolegol eraill<br>Rhowch y manylion isod | |

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.2: Math o waith**
E.e. labordy, gwaith maes, arall

[Rhowch y manylion yma]

**3.3: Nodwch y niwed a achosir gan y deunydd(iau) rydych chi wedi'u rhestru yn 3.1**

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.4: Ffyrdd posibl o amlygu bodau dynol, anifeiliaid neu blanhigion i'r deunyddiau neu o ryddhau'r deunyddiau i'r amgylchedd**

| | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Anadlu / Llyncu / Chwistrellu / Amsugno / Arall |

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.5: Defnyddio cyfryngau neu ddeunyddiau biolegol**
Disgrifiwch yn fyr raddfa neu gyfaint y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio a'u cyflwyniad, e.e. "meithriniadau o lai na 25ml o ddeunydd planhigion".

[Rhowch y manylion yma]

**3.6: Amlder defnyddio**

[Rhowch y manylion yma]

**3.7: Y swm neu'r crynodiad mwyaf a ddefnyddir**
Os oes modd, disgrifiwch yn fyr grynodiad y deunyddiau heintus sy'n cael eu defnyddio. Pan nad yw hyn yn hysbys, disgrifiwch pam (e.e. wrth ddefnyddio gwaed).

[Rhowch y manylion yma]

**3.8: Lefelau erosolau heintus**
Disgrifiwch y potensial ar gyfer cynhyrchu erosolau gan gynnwys ym mha gamau yn y broses/prosesau a lefel bosibl y deunydd heintus y gellid ei erosoleiddio. Pan nad yw hyn yn hysbys, disgrifiwch pam (e.e. wrth ddefnyddio gwaed).

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.9: Y potensial ar gyfer amlygiad i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol**
Gan ddefnyddio'r matrics amcangyfrif risg ar ddiwedd y ffurflen, aseswch y tebygolrwydd o gael eich amlygu i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol.

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.10: Pwy allai wynebu risg**

| | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Staff Ymchwil / Staff Arall / Myfyrwyr / Ymwelwyr / Cyhoedd / Pobl ifanc (<18 oed) / Mamau newydd a mamau sy'n disgwyl / Arall |

[Rhowch ragor o fanylion yma]

**3.11: Asesiad cyffredinol o'r risg i iechyd pobl** (Cyn defnyddio rheolaethau)
Gan ddefnyddio'r matrics amcangyfrif risg ar ddiwedd y ffurflen, aseswch debygolrwydd a difrifoldeb amlygiad i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol. Cofnodwch y tebygolrwydd a'r difrifoldeb yma.

| | |
|---|---|
| **Lefel y risg** (tebygolrwydd x difrifoldeb) | |

**3.12: Asesiad cyffredinol o'r risg i'r amgylchedd** (Cyn defnyddio rheolaethau)

| Gan ddefnyddio'r matrics amcangyfrif risg ar ddiwedd y ffurflen, aseswch debygolrwydd a difrifoldeb amlygiad i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol. Cofnodwch y tebygolrwydd a'r difrifoldeb yma. | |
|---|---|
| **Lefel y risg**<br>(tebygolrwydd x difrifoldeb) | |

## Adran 4 – Mesurau rheoli i ddileu neu leihau risgiau o amlygu neu ryddhau

Dylai'r adran hon ddisgrifio'r mathau o reolaethau y bydd eu hangen i gyflawni'r gwaith yn ddiogel. Rhaid ichi ddilyn hierarchaeth rheoli risg trwy ddewis y mesurau rheoli mwyaf effeithiol sydd eu hangen i gyflawni'ch gwaith yn ddiogel ac nid dim ond y rheolaethau hawsaf. Peidiwch â chynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol manwl a ddylai gael eu nodi mewn dogfennau ar wahân.

| **4.1: Labordai neu gyfleusterau cyfyngu** | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Labordy / Cyfleuster anifeiliaid / Cyfleuster planhigion / Arall |
| [Rhowch ragor o fanylion yma] | |

| **4.2: Lefel cyfyngu** | |
|---|---|
| Dewiswch un | Lefel cyfyngu 1 / Lefel cyfyngu 2 / Lefel cyfyngu 3 |
| [Rhowch ragor o fanylion yma] | |

| **4.3: Cypyrddau diogelwch microbiolegol (MSC) ac ynysyddion** | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Dosbarth I / Dosbarth II / Dosbarth III / Ynysydd / Arall |
| [Rhowch ragor o fanylion yma] | |

| **4.4: Rheolaethau offer miniog** |
|---|
| [Rhowch y manylion yma] |

| **4.5: Rheolaethau arbennig** |
|---|
| [Rhowch y manylion yma] |

| **4.6: Cyfarpar diogelu personol (PPE)** | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Cot labordy / Gŵn labordy / Sgrybs llawfeddygol / Dillad tafladwy / Ffedog / Sbectol diogelwch / Gogls / Tarian wyneb / Menig / Penwisg / Esgidiau / arall |
| [Rhowch ragor o fanylion yma] | |

| **4.7: Cyfarpar amddiffynnol anadlol (RPE)**<br>Sylwch y dylid defnyddio amddiffyniad anadlol fel llinell amddiffyn olaf a dim ond pan nad oes rheolaethau pellach yn addas. | |
|---|---|
| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Mwgwd hidlo / Anadlydd hanner wyneb / Anadlydd wyneb llawn / Anadlydd wedi'i bweru / Offer anadlu / Arall |
| [Rhowch ragor o fanylion yma] | |

| **4.8: Rheolaethau storio**<br>Disgrifiwch y rheolaethau a ddefnyddir i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau biolegol neu heintus yn cael eu storio'n ddiogel. |
|---|
| [Rhowch y manylion yma] |

| **4.9: Rheolaethau cludiant** |
|---|

Disgrifiwch y rheolaethau a ddefnyddir i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau biolegol neu heintus yn cael eu cludo neu eu symud yn ddiogel. Sylwch fod llwytho neu gludo deunyddiau heintus yn dod o dan ddeddfwriaeth ryngwladol.

[Rhowch y manylion yma]

**4.10: Rheolaethau anactifadu**

Sylwch fod Rheoliad COSHH 7(10) yn gofyn am weithdrefnau diheintio penodol ar gyfer pob gweithgaredd ar Lefel Cyfyngu 2 ac uwch.

| Dewiswch bob un sy'n gymwys | Diheintio / Awtoclaf / Mygdarthu / Llosgi / Arall |
|---|---|

**Diheintio**

Rhowch fanylion y diheintydd(ion), y dull a'r dilysu gan gynnwys crynodiad y diheintydd a'r amser cyswllt (e.e. cyfarwyddiadau'r cyflenwr neu ddilysiad lleol).

**Awtoclafio**

Rhowch fanylion y dull awtoclafio, y graddnodi a'r dilysu.

**Mygdarthu**

Rhowch fanylion y dewis mygdarthau, y dull defnyddio, y dilysu neu'r broses, a sut mae'r mygdarth yn cael ei wacáu neu ei anactifadu.

**Llosgi**

Rhowch y manylion am sut mae deunydd yn cael ei drin a'i gyfyngu i'w gludo i'r llosgydd. Rhowch fanylion y contractwr gwastraff hefyd a pha archwiliadau dyletswydd gofal sy'n cael eu cyflawni.

**Arall**

[Rhowch fanylion y dull a'r dilysu].

**4.11: Llwybrau gwaredu gwastraff**

[Rhowch y manylion yma]

**4.12: Gwyliadwriaeth Iechyd ac Imiwneiddiadau (os yw'n gymwys i staff a myfyrwyr)**

I gael cygnor ar wyliadwriaeth iechyd neu imiwneiddio, cysylltwch ag hasstaff@aber.ac.uk neu i drefnu gwyliadwriaeth iechyd neu imiwneiddio, cysylltwch ag ad@aber.ac.uk

[Rhowch y manylion yma]

**4.13: Cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth**

Rhowch ddyddiad yr hyfforddiant bioddiogelwch diweddaraf i'r staff sy'n gwneud y gwaith, ac unrhyw hyfforddiant a phrofiad perthnasol arall.

[Rhowch y manylion yma]

**4.14: Hysbysiad yr HSE (os yw'n gymwys)**

Mae angen hysbysiadau ar gyfer rhai cyfryngau heintus. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Tîm HS&E neu'r Cynghorydd Diogelwch Biolegol.

[Rhowch y manylion yma]

**4.15: Trwydded Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (SAPO) (os yw'n gymwys)**

| |
|---|
| Mae angen caniatâd ar gyfer cyfryngau heintus penodol. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Tîm HS&E neu'r Cynghorydd Diogelwch Biolegol. |
| [Rhowch y manylion yma] |
| **4.16: Trwydded Gorchymyn Iechyd Planhigion (PHO) (os yw'n gymwys)** |
| [Rhowch y manylion yma] |
| **4.17: Trwydded fewnforio, allforio neu drwydded arall (os yw'n gymwys)** |
| [Rhowch y manylion yma] |

## Adran 5 – Gweithdrefnau Gollyngiadau neu Ddamweiniau

Dylai'r adran hon ddisgrifio unrhyw weithdrefnau a ddefnyddir i ddelio ag amlygiad damweiniol, rhyddhau, gollwng, neu ddamwain arall. Ystyriwch y math o ollyngiad neu ddamwain a allai ddigwydd yn ogystal â deunydd, cyfeintiau, cam cylch bywyd neu grynodiad y meithriniad, a'r llwybrau heintio. Disgrifiwch pa becynnau cymorth cyntaf, offer neu ddeunyddiau a gâi eu defnyddio i gyfyngu a diheintio unrhyw ddeunydd a ollyngid, yn ogystal â'u gwaredu'n ddiogel.

**5.1: Gweithdrefnau brys**

**5.2: Cysylltiadau brys**

| Enw | Swydd | Ffôn |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

## Adran 6 – Cynlluniau Argyfwng

Dylai'r adran hon ddisgrifio unrhyw gynllun argyfwng a ddefnyddir i ddelio â rhyddhau damweiniol difrifol. **Dim ond ar gyfer gwaith risg uchel sy'n cynnwys deunydd Grŵp Perygl 3 y mae angen cynllun argyfwng**. I gael cyngor, cysylltwch â'r Tîm HS&E neu'r Cynghorydd Diogelwch Biolegol.

| **6.1: Os ceir rhyddhau damweiniol difrifol oes angen cynllun argyfwng i amddiffyn pobl neu'r amgylchedd?** | Oes / Nac oes |
|---|---|
| [Rhowch y manylion yma] | |

## Adran 7 – Sgôr Risg Derfynol

**7.1: Asesiad cyffredinol o'r risg i iechyd pobl** (ar ôl defnyddio rheolaethau)

Gan ddefnyddio'r matrics amcangyfrif risg ar ddiwedd y ffurflen, aseswch debygolrwydd a difrifoldeb amlygiad i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol. Cofnodwch y tebygolrwydd a'r difrifoldeb yma.

| **Lefel y risg** (tebygolrwydd x difrifoldeb) | |
|---|---|

**7.2: Asesiad cyffredinol o'r risg i'r amgylchedd** (ar ôl defnyddio rheolaethau)

| | |
|---|---|
| Gan ddefnyddio'r matrics amcangyfrif risg ar ddiwedd y ffurflen, aseswch debygolrwydd a difrifoldeb amlygiad i gyfryngau neu ddeunyddiau biolegol. Cofnodwch y tebygolrwydd a'r difrifoldeb yma. | |
| **Lefel y risg** (tebygolrwydd x difrifoldeb) | |

## Adran 8 – Cymeradwyaeth

Dylai'r adran hon gael ei llofnodi a'i dyddio gan awdur yr asesiad risg a'r prif ymchwilydd, y goruchwylydd neu'r rheolwr llinell Yna rhaid ei chyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch Biolegol a GM trwy biological-gm-committee@aber.ac.uk.

**Ni ddylai'r gwaith ddechrau nes bod cymeradwyaeth wedi'i sicrhau gan Bwyllgor Diogelwch Biolegol a GM y Brifysgol.**

| **8.1: Awdur(on) yr Asesiad Risg** | | |
|---|---|---|
| Enw | Llofnod | Dyddiad |
| | | |
| **8.2: Prif Ymchwilydd, Goruchwylydd neu Reolwr Llinell** | | |
| Enw | Llofnod | Dyddiad |
| | | |

Fel y rheolwr sy'n gyfrifol am y gwaith hwn, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan bawb sy'n rhan o'r prosiect neu'n gweithio arno lefel briodol o hyfforddiant ac arbenigedd i weithio'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr yn darllen ac yn deall yr asesiad risg hwn a bod yr holl fesurau rheoli yn cyd-fynd â'r rhai a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect.

Dylech hefyd sicrhau bod y mesurau rheoli a nodwyd yn yr asesiad risg hwn yn addas, yn cael eu defnyddio'n gywir, a'u profi lle bo hynny'n briodol. I gael cyngor, cysylltwch â'r Tîm HS&E neu'r Cynghorydd Diogelwch Biolegol.

| **8.3: Pwyllgor Diogelwch Biolegol a Diogelwch GM** **I'w gwblhau gan y Cadeirydd neu'r corff cymeradwyo yn unig.** | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod neu'r ebost yn cytuno ar y gymeradwyaeth | |

## Adran 9 – Cofnod o'r Adolygiad

Rhaid i'r asesiad risg gael ei adolygu o dro i dro (fel y disgrifir yn y canllawiau diogelwch biolegol) ac ar unwaith os ceir unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y gwaith neu'r proffil risg, neu yn dilyn damwain neu ddigwyddiad.
Dylai adolygiadau gael eu cynnal gan yr unigolion sy'n cyflawni'r gwaith yr aseswyd ei risg, a'u goruchwylio gan y Prif Ymchwilydd, arweinydd y grŵp, neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rheoli dros y gweithgaredd. Mae'r rheolwr cyfrifol o dan ddyletswydd i sicrhau bod yr adolygiad yn digwydd ac yn cael ei gofnodi.

Llenwch dudalen cyflwyno'r ddogfen hon ar dudalen 1.

## Matrics Amcangyfrif Risg

| | | Tebygolrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Difrifoldeb | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | 2 | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 3 | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 4 | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 5 | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |

| | Tebygolrwydd | Difrifoldeb |
|---|---|---|
| 1 | **Prin** – Fe allai ddigwydd, ond mae'n debyg na fydd byth | **Anarwyddocaol** – Dim triniaeth neu gymorth cyntaf yn unig.  Dim effeithiau corfforol mesuradwy. |
| 2 | **Annhebygol** – Digwyddiad yn rhagweladwy, ond nid yw'n debygol o ddigwydd o dan weithrediadau neu amgylchiadau arferol | **Mân** – Anafiadau neu salwch sydd angen triniaeth feddygol y tu hwnt i gymorth cyntaf.  Amhariad dros dro. |
| 3 | **Posibl** – Fe all ddigwydd ar ryw adeg yn ystod gweithrediadau neu amgylchiadau arferol | **Cymedrol** – Amhariad dros dro sy'n arwain at golli amser neu gyfyngiad yn y swydd.  Gall arwain at dderbyniad i'r ysbyty. |
| 4 | **Tebygol** – Disgwylir iddo ddigwydd ar ryw adeg yn ystod gweithrediadau neu amgylchiadau arferol | **Mawr** – Amhariad parhaol / hirdymor |
| 5 | **Bron yn sicr** – Disgwylir iddo ddigwydd yn rheolaidd yn ystod gweithrediadau neu amgylchiadau arferol | **Trychinebus** – Marwolaethau neu amhariad gydol oes.  Effeithiau andwyol ar atgenhedlu. |